# Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Mewnfudo Anghyfreithlon | Legislative Consent Illegal Migration Bill

## Ymateb gan Comisiynydd Plant Cymru
## Response from Children's Commissioner for Wales

At: Jayne Bryant,
Cadeirydd y Pwyllgor
Plant a Phobl Ifanc

Jenny Rathbone AS,
Cadeirydd y Pwyllgor
Cydraddoldeb a
Chyfiiawnder
Cymdeithasol

Senedd Cymru

<u>**Trwy ebost yn unig**</u>

15 Mehefin 2023

Annwyl Gadeiryddion,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mai ynghylch Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y Deyrnas Unedig ("y Bil").

Mae'r Bil Mudo Anghyfreithlon a'r effaith y byddai'n ei chael ar blant petai'n dod i rym yn peri pryder mawr i mi. Gallai'r Bil hwn danseilio'n sylweddol y mesurau diogelu sydd yn eu lle i amddiffyn plant, ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i fod yn Genedl Noddfa. Trwy ddod â'r Bil i rym fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd byddai'r Deyrnas Unedig yn torri amodau cytuniadau rhyngwladol, gan gynnwys Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CCUHP), a'r Confensiwn a'r Protocol ynghylch statws ffoaduriaid (Confensiwn Ffoaduriaid 1995).

Bydd goblygiadau sylweddol a phellgyrhaeddol i'r Bil hwn o ran hawliau plant, gan ei fod yn methu â chydnabod sylfaen gyffredinol CCUHP ac yn torri hawl plant mewn amgylchiadau agored i niwed i gael eu hamddiffyn. Yn benodol, mae erthygl 22 o'r Confensiwn yn nodi:

> *Rhaid i Bartïon Gwladol gymryd mesurau priodol i sicrhau bod plentyn sy'n ceisio statws ffoadur neu sy'n cael ei ystyried yn ffoadur yn unol â chyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol, p'un a yw'n cael ei hebrwng gan ei r(h)ieni neu beidio, neu gan unrhyw berson arall, yn derbyn amddiffyniad priodol a chymorth dyngarol wrth fwynhau'r hawliau perthnasol a gyflwynir yn y Confensiwn presennol ac mewn offerynnau hawliau dynol neu ddyngarol rhyngwladol eraill y mae'r Gwladwriaethau dan sylw yn Bartïon iddynt.*

**Goblygiadau'r Bil**

Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Gan fod y Bil hwn yn dod o dan gylch gwaith fy nghymheiriad yn Lloegr, fel y byddech yn amlwg yn disgwyl, mae fy swyddfa wedi bod mewn cysylltiad agos â thîm y Fonesig Rachel de Souza yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnig cyngor a chefnogaeth. Yma rwy'n cyflwyno sut rwyf fi'n gweld rhai o oblygiadau allweddol y Bil i blant yng Nghymru y bydd hyn yn effeithio arnynt:

Fel y nodir yn adran 19 o'r Bil, bydd adrannau 15-18 ynghylch ceiswyr lloches heb eu hebrwng yn berthnasol i Gymru. Mae gen i bryderon sylweddol ynghylch y darpariaethau a gyflwynir yn y Bil hwn a goblygiadau hynny i blant a'u hawliau. Mewn nodyn briffio diweddar, mae Comisiynydd Plant Lloegr yn amlygu pryderon ynghylch adrannau 15 ac 16 o'r Bil. Mae'r nodyn briffio hwn yn manylu ar faterion o bersbectif hawliau plant ac yn myfyrio ar sefyllfa plant sy'n cael eu lletya yn llety'r Swyddfa Gartref ers 2021. Mae fy swyddfa wedi gweithio gyda'm cymheiriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i baratoi'r nodyn briffio hwn, ac mae'n adlewyrchu fy mhryderon ynghylch diogelwch plant yn y safleoedd lletya hyn a sut bydd hyn yn effeithio ar eu gallu i dderbyn eu hawliau fel y nodir yn CCUHP.

O ystyried y pryderon mae fy nghymheiriad yn Lloegr wedi'u codi ynghylch safon y diogelu yn llety Gwestai'r Swyddfa Gartref i blant, rwy'n pryderu'n arbennig am bwerau arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol i ddod â gofal awdurdod lleol i ben a gwneud trefniadau i blentyn fyw mewn llety ar gyfer plant sy'n mudo heb eu hebrwng. Rhaid ystyried safon y gofal a rhaid i blant fedru derbyn eu hawliau ym mhob lleoliad. Yn benodol, mae hyn yn golygu bod modd trin plant sy'n ceisio lloches yn wahanol i eraill sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, fel bod eu statws 'derbyn gofal' mewn perygl, sy'n torri erthygl 22 o CCUHP. Mae Erthygl 22 yn datgan bod 'rhaid rhoi'r un amddiffyniad i'r plentyn ag i unrhyw blentyn arall sydd wedi'i amddifadu'n barhaol neu dros dro o amgylchedd ei d/theulu am unrhyw reswm…'. Mae gan blant sy'n ceisio lloches hawl i dderbyn yr holl hawliau a gyflwynir yn CCUHP.

Mae'r cynnig i roi pŵer i'r Swyddfa Gartref letya plant, ac i gyfeirio plentyn sy'n derbyn gofal yn ôl i lety'r Swyddfa Gartref, yn peri pryder mawr. Byddwch yn ymwybodol bod dyletswydd ar awdurdodau lleol yma yng Nghymru, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i gynnal asesiad o anghenion. Os caiff plentyn ei leoli gyda'r Swyddfa Gartref, yn hytrach na chyda'r awdurdod lleol, ni fydd y ddyletswydd hon mewn grym. Eto mae hyn yn gwrthdaro'n uniongyrchol ag Erthygl 22 o CCUHP.

Ar ôl cwrdd â Cheiswyr Lloches heb eu hebrwng sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, rwyf wedi codi ystod o bryderon gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, gan gynnwys mynediad at addysg, cefnogaeth i iechyd meddwl a llety addas. Ofnir y byddai gweithredu'r Bil hwn,

fel mae'n sefyll, yn gwaethygu'r materion hyn ac yn cael effaith negyddol ar blant o ran cael mynediad i'w hawliau. Yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi cwrdd â phlant sy'n ceisio lloches heb eu hebrwng sy'n byw'n annibynnol, mewn gwestai. Mae hyn yn adlewyrchu'r materion ehangach a pharhaus o ran gofal cymdeithasol a diffyg llety addas, yn enwedig yn achos y bobl ifanc hynny sy'n 16 oed a throsodd, sy'n nesáu at adael gofal. Mae'n bwysig bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at amgylchedd gofalu cofrestredig, diogel, sy'n hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

Mae'r Bil yn fygythiad i'r ddeddfwriaeth ddatganoledig bresennol a phwerau a dyletswyddau Llywodraeth ddatganoledig Cymru, awdurdodau lleol, a chyrff cyhoeddus. Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant, fel y'u nodir yn CCUHP. Mae hynny'n cynnwys dyletswydd awdurdodau lleol i asesu ac ymdrin ag anghenion llety a chefnogaeth plant, beth bynnag yw eu statws mewnfudo. Byddai'r Bil hefyd yn tanseilio'r ddeddfwriaeth bresennol hon, gan dorri hawliau plant a gwrthdaro ag ymrwymiadau Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru fel y'u cyflwynir yn *Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches* (2019).

Mae dull gweithredu Cymru, 'Plentyn Gyntaf, Mudo'n Ail', yn hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gyflwyno cefnogaeth i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru – byddai'r Bil yn tanseilio'r model cyflawni hwn yn llwyr.

Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn ei Sylwadau Terfynol ar y cyfuniad o chweched a seithfed adroddiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae'r gwaith hwnnw yn cynnwys sawl maes lle mae angen 'mesurau brys', gan gynnwys plant mudol, sy'n ffoaduriaid ac sy'n ceisio lloches, ac mae'n mynd ymlaen i godi pryderon penodol ynghylch y Bil. Atodaf yr argymhellion perthnasol i Barti Gwladol y Deyrnas Unedig i'r llythyr hwn.

Hyderaf y bydd yr uchod o ddefnydd yn eich trafodaethau. Mae croeso i chi gysylltu os hoffech i ni ymhelaethu ymhellach ar unrhyw bwyntiau a godwyd.

Yn gywir,

Rocio Cifuentes MBE
Comisiynydd Plant Cymru

**Atodiad: Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn – Sylwadau terfynol ar y cyfuniad o chweched a seithfed adroddiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon**

*Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr ynghylch y canlynol:*

*a) Cyfyngiadau ar hawliau lloches ac aduno teuluoedd, troseddoli cyrraedd heb ganiatâd ymlaen llaw a chyflwyno system ddwy haen ar gyfer adnabod plant sy'n ffoaduriaid, o dan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022;*
*b) Effaith bosibl y Bil Mudo Anghyfreithlon ar blant, sy'n cynnwys gwaharddiad ar hawlio lloches, yn caniatáu ar gyfer cadw plant yn gaeth am gyfnod estynedig a'u symud, yn creu rhwystrau wrth gaffael cenedligrwydd, ac sydd heb ystyried egwyddor lles pennaf y plentyn;*
*c) Mae'r defnydd parhaus o ddulliau annibynadwy ar gyfer pennu oedran plentyn, y nifer mawr o blant y bu dadlau ynghylch eu hoed, a'r diffyg data ynghylch nifer y ceiswyr lloches sy'n honni bod yn blant y mae swyddogion mewnfudo wedi'u hasesu ac weithiau eu cadw'n gaeth fel oedolion.*

*Gan gyfeirio at sylwadau cyffredinol cyfun Rhif 3 a Rhif 4 (2017) y Pwyllgor ar Amddiffyn Hawliau Pob Gweithiwr Mudol ac Aelodau o'u Teuluoedd/Rhif 22 a Rhif 23 (2017) o'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn ynghylch hawliau dynol plant yng nghyd-destun mudo rhyngwladol, mae'r Pwyllgor yn annog y parti Gwladol i wneud y canlynol:*

*a) Newid y Bil Mudo Anghyfreithlon ar frys i ddiddymu pob darpariaeth ddrafft a fyddai'n torri hawliau plant o dan y Confensiwn ac o dan Gonfensiwn Ffoaduriaid 1851, fel bod y Bil yn cyfateb i rwymedigaethau'r Parti Gwladol o dan gyfraith hawliau dynol ryngwladol i sicrhau hawliau plant i genedligrwydd, i geisio lloches, ac i sicrhau bod eu lles pennaf yn brif ystyriaeth, yn ogystal ag er mwyn eu hatal rhag cael eu cadw'n gaeth am gyfnod estynedig a'u symud;*
*b) Newid y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau i ddileu dynodiad statws "Grŵp 2" i rai grwpiau o blant sy'n ffoaduriaid, a sicrhau nad yw unrhyw blentyn sy'n ffoadur neu'n ceisio lloches, gan gynnwys plant sydd heb eu hebrwng, yn cael eu troseddoli, a'u bod yn cael mynediad at y gefnogaeth a'r gwasanaethau angenrheidiol;*
*c) Adolygu a chryfhau'r broses loches er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gwybodaeth oed-briodol a chyngor cyfreithiol am eu hawliau, gweithdrefnau lloches a gofynion o ran dogfennaeth; bod eu lles pennaf yn brif ystyriaeth yn yr holl brosesau lloches; bod eu barn yn cael ei chlywed, ei chymryd i ystyriaeth, ac yn cael pwysiad dyladwy; a'u bod*

*yn cael mynediad at fecanweithiau a rhwymedïau cyfiawnder hwylus i blant;*

d) *Cryfhau mesurau i sicrhau bod yr holl blant sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid ac sy'n mudo yn cael mynediad prydlon, cyfartal at addysg, gwasanaethau iechyd, tai, cefnogaeth seico-gymdeithasol, ac amddiffyniad cymdeithasol, gan gynnwys gallu hawlio budd-daliadau;*
e) *Terfynu'r defnydd o weithdrefnau ymwthiol, annibynadwy wrth geisio pennu oedran plentyn; datblygu gweithdrefn pennu oedran sy'n sensitif i'r plentyn ac i rywedd, sy'n cynnwys asesiadau amlddisgyblaeth o aeddfedrwydd a lefel datblygiad y plentyn gan weithwyr proffesiynol perthnasol, ac sy'n parchu egwyddor gyfreithiol mantais amheuaeth; a sicrhau bod plant yn cael mynediad at gyngor cyfreithiol ar hyd y broses, a'u bod, os bydd angen, yn gallu herio canlyniad asesiadau o'r fath;*
f) *Sicrhau nad yw plant a phlant y mae dadlau ynghylch eu hoed yn cael eu symud i drydedd gwlad;*
g) *Datblygu system gyson, statudol o warcheidiaeth annibynnol ar gyfer pob plentyn heb eu hebrwng, a sicrhau bod pob plentyn heb eu hebrwng ar draws holl awdurdodaethau'r Parti Gwladol yn cael eu nodi'n brydlon, a bod gwarcheidwad a hyfforddwyd yn broffesiynol yn cael ei benodi ar eu cyfer;*
h) *Adolygu ei system o aduno teuluoedd yng nghyswllt plant heb eu hebrwng, gyda golwg ar sicrhau bod gan blant hawl ddiamwys i wneud cais am aduniad teuluol, a bod ceisiadau'n cael eu hystyried gan ddefnyddio dull gweithredu cyson, seiliedig ar hawliau plant, heb wastraffu amser, gyda lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad cysylltiedig.*